| CYD-BWYLLGOR PROSIECT GWYRDD<br>Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022, 11.00 am |
|---|
| **LLEOLIAD: Cyfarfod o Bell** |
| **Yn bresennol**: |
| **Aelodau Etholedig:**<br><br>**Cynghorydd Chris Weaver, Caerdydd**<br>**Councillor Chris Morgan, Caerffili**<br>**Councillor Catrin Maby, Monmouthshire**<br>**Councillor Yvonne Forsey, Casnewydd**<br>**Councillor Laura Lacey, Casnewydd**<br>**Councillor Mark Wilson, Bro Morgannwg** |
| **Swyddogion:**<br><br>**Matt Wakelam**<br>**Sian Humphries**<br>**Andrew Williamson**<br>**Colin Smith**<br>**Marc Falconer**<br>**Laura Carter**<br>**Julie Baker**<br>**Lucy Paterson**<br>**Emma Reed**<br>**Rhodri Lloyd**<br>**Andrea Redmond** |

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sivagnanam, Pritchard a Wild.<br><br>O ganlyniad i'r ymddiheuriadau am absenoldeb a'r mynychwyr a oedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, darparwyd cyngor cyfrinachol mewn perthynas â'r cworwm. Ar ôl ystyried y cyngor a natur yr adroddiadau, cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen â'r cyfarfod yn unol â'r Cytundeb Cydweithio 2. Mae'r cyngor wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi yn unol â pharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. |
| 2 | **Datgan Buddiannau**<br>Dim wedi'u derbyn. |
| 3 | **Cofnodion**<br>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin yn gofnod cywir. |
| 4 | **Materion yn Codi**<br>Dim. |
| 5 | **Adroddiad Diweddaru**<br>Rhoddodd swyddogion amlinelliad cynhwysfawr i'r Aelodau o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Diweddaru a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.<br><br>Roedd yr aelodau yn fodlon â'r adroddiad ac nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.<br><br>Roedd yr Aelodau'n falch o weld y newyddion cadarnhaol bod mwy o bobl wedi derbyn o'r Gronfa Gymunedol.<br><br>Dywedodd yr Aelodau wrth swyddogion nad oedd y ddolen i wefan y Gronfa Gymunedol a ganfuwyd ar daflen wybodaeth yn gweithio. Cytunodd swyddogion i ddatrys hyn gyda Viridor.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad. |
| 6 | **Sefyllfa Monitro Alldro a Ragamcanwyd Mis 6 2022/23 a Chyllideb 2023/24**<br>Rhoddodd swyddogion amlinelliad cynhwysfawr i'r Aelodau o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y Sefyllfa Fonitro Alldro a Ragamcanwyd Mis 6 2022/23 a |



Partneriaeth o Gynghorau

Parter cefnogol

| No | Item | Action |
|---|---|---|
| | Chyllideb 2023/24 a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.<br><br>Roedd yr aelodau'n fodlon â'r adroddiad ac nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau gan fod y wybodaeth yn cyd-fynd â'u disgwyliadau o'r sefyllfa bresennol.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>a. Nodi’r alldro a ragamcanwyd ar gyfer 2022/23 gan gynnwys y balans a ragamcanwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn ar gyfer Cyfrif Wrth Gefn y Cydbwyllgor.<br><br>b. Argymell y gyllideb ar gyfer 2023/24, gan gynnwys y lleihad a balans diwedd y flwyddyn y Cyfrif Wrth Gefn, i’r Cynghorau Partner ei chymeradwyo fel rhan o’u fframweithiau cynllunio cyllidebau perthnasol ar gyfer 2023/24.<br><br>c. Gofyn i'r Cynghorau Partner nodi'r cyllidebau dangosol, a’r cyfraniadau partner cysylltiedig, a amlinellwyd ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2024/25 i 2026/27. | |
| 7 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br>I'w drefnu. | |